**7. Os ydych yn gwneud cais i amrywio'r cofrestriad, ticiwch bob un o'r newidiadau sy'n berthnasol isod**

- ☐ Newid llwybr - Amgaewch ddalen disgrifio llwybr a map
- ☐ Arosfannau / mannau aros bws - Amgaewch daflen disgrifio'r llwybr a map
- ☐ Trefniadau stopio - Atodwch fanylion
- ☐ Symudiadau bacio - Atodwch fanylion
- ☐ Amserlen - Atodwch fanylion
- ☐ Arall - Atodwch fanylion

**8. A ydych yn gwneud cais i amrywio'r man cychwyn cofrestredig?**

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os mai Ydw yw eich ateb, rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i nodi'r union leoliad, a allai gynnwys: enw stryd, enw gorsaf fysiau, gorsaf reilffordd, ysgol ac ati a phentref, tref neu ddinas a chod NaPTAN. Os oes gan y cofrestriad fwy nag un man cychwyn dylech nodi manylion yr amrywiad ar ddalen ar wahân.

| | |
|---|---|
| Gorsaf fysiau / rheilffordd neu bwynt adnabod e.e. ysgol | |
| Enw stryd | |
| Pentref / tref / dinas | |

**9. A ydych chi'n gwneud cais i amrywio'r man gorffen cofrestredig?**

Os mai Ydw yw eich ateb, rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i nodi'r union leoliad, a allai gynnwys: enw stryd, enw gorsaf fysiau, gorsaf reilffordd, ysgol ac ati a phentref, tref neu ddinas a chod NaPTAN. Os oes gan y cofrestriad fwy nag un man gorffen dylech nodi manylion yr amrywiad ar ddalen ar wahân.

| | |
|---|---|
| Gorsaf fysiau / rheilffordd neu bwynt adnabod e.e. ysgol | |
| Enw stryd | |
| Pentref / tref / dinas | |

**10. Rhowch grynodeb o'r amrywiad i'r cofrestriad.**
Dylid rhoi amlinelliad o'r newidiadau, er enghraifft, dylech nodi a yw'n newid mewn amlder, amseriad neu newid i'r llwybr.
Ni fydd cyflwyno'r amserlen ddiwygiedig yn ddigon a gallai oedi prosesu eich cais.
Os oherwydd Gorchymyn Rheoleiddio Traffig dylech anfon manylion. Sylwch y bydd y newidiadau yn cael eu cyhoeddi.

**11. Pryd ydych chi am i'r newid(iadau) ddod i rym?** (Dylid rhoi dyddiad penodol, ni ellir ei ddyddio cyn i ni dderbyn y cais ac ni all fod cyn gynted â phosibl)

Yn Lloegr, mae'n rhaid i chi roi 28 diwrnod o rybudd i bob awdurdod lleol perthnasol o'ch cynigion cyn anfon y cais hwn at y Comisiynydd Traffig. Ni all y newidiadau ddod i rym heb 42 diwrnod arall o rybudd i'r Comisiynydd Traffig. Yng Nghymru, mae angen 56 diwrnod o rybudd i'r Comisiynydd Traffig yn unig. Os ydych am gael cyfnod rhybudd byrrach yna mae'n rhaid i chi hefyd lenwi ac atodi ffurflen PSV350A.

**12. Cadarnhaf fod copi o'r cais hwn a'r holl ddogfennau ategol wedi'u cyflwyno i bob awdurdod lleol perthnasol ar y dyddiad a ganlyn:**

Awdurdod lleol perthnasol:

Dyddiad cyflwyno:

Rhaid i chi anfon copi o'r ffurflen hon gyda'r dogfennau ategol at unrhyw awdurdod trafnidiaeth lleol y bydd y gwasanaeth yn gweithredu yn ei ardal, CYN cyflwyno'ch cais i'r Comisiynydd Traffig. Yna bydd gan yr awdurdodau 28 diwrnod i ystyried eich cais. Rhaid i chi hefyd roi cadarnhad bod yr awdurdod lleol wedi ystyried eich cais.

Mae pro-fforma ynghlwm wrth gefn y ffurflen hon.

**Cynlluniau Masnachfreintio**

**19. A fydd unrhyw ran o'r gwasanaeth yn gweithredu drwy ardal sy'n destun cynnig Cynllun Masnachfreintio yn ystod cyfnod pontio?**

Bydd ☐ Na fydd ☐

Os Fydd, rhowch enw'r awdurdod trafnidiaeth lleol neu'r awdurdod arweiniol

| |
|---|
| |

**20. Beth yw'r cyfnod rhybudd statudol sy'n berthnasol o dan hysbysiad trosiannol y Cynllun Masnachfreintio?**

| |
|---|
| |

Ymgynghorwch â'ch awdurdod lleol i benderfynu ar y cyfnod rhybudd sy'n berthnasol ar gyfer y gwasanaeth hwn. Os yw awdurdod lleol wedi dyroddi hysbysiad trosiannol mewn perthynas â'r Cynllun Masnachfreintio arfaethedig bydd y cyfnod hysbysu trosiannol llawn yn cael ei gymhwyso, oni hysbysir yn wahanol.

